

Gweithiwr Cymorth Iechyd Meddwl - Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl

Portffolio: Y Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyflog: £25,119- £26,421

Sail: Parhaol, 37 awr

Lleoliad: **Cysylltiadau Cymdeithasol**, Shotton.

**Cysylltiadau Cymdeithasol** - Rydym yn cefnogi pobl yn unigol ac mewn grwpiau i hybu eu lles cymdeithasol. Rydym yn galluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a hamdden er budd iechyd meddwl a chorfforol. Rydym yn galluogi pobl i gael mynediad i grwpiau cymunedol, hybu cynhwysiant a hefyd yn rhedeg nifer o sesiynau galw heibio ar draws Sir y Fflint sy'n agored i unrhyw un sy'n dioddef gyda iechyd meddwl.

Pan fyddwch yn Weithiwr Cefnogi Iechyd Meddwl gallwch wneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Fel rhan o'n tîm, byddwch yn darparu cefnogaeth hyblyg i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl, yn unol ag egwyddorion "adfer" a "beth sy'n bwysig" gan alluogi bobl i arwain bywydau cyflawn ac ystyrlon.

Byddwch yn gweithio mewn partneriaeth gydag unigolion i'w helpu i gyflawni eu hamcanion personol. Byddwch yn darparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol gyda'r nod o hybu annibyniaeth, hyder ac ansawdd bywyd.

Rydym yn chwilio am gydweithwyr newydd sy'n deall anghenion pobl gyda phroblemau iechyd meddwl a'r rhwystrau maent yn eu hwynebu. Byddwch yn cefnogi pobl ddiamddiffyn, eu cynorthwyo i fyw mor annibynnol â phosibl. Dylai fod gennych agwedd anfeirniadol a'r gallu i drin unigolion gydag urddas a pharch.

Lefel 3 ar y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau neu gymhwyster Gofal Cymdeithasol arall yn ddymunol. Fodd bynnag, os ydych yn fodlon ymgymryd â hyfforddiant a gweithio tuag at Gymhwyster Gofal Cymdeithasol yna dylech wneud cais.

Rydym wedi ymrwymo i gyfleoedd cyfartal a hybu cynhwysiant ac rydym eisiau herio stigma o amgylch iechyd meddwl. Rydym yn cynnig trefniadau gweithio'n hyblyg i hwyluso cydbwysedd bywyd a gwaith, yn ogystal â chynllun pensiwn, hawl i wyliau blynyddol hael a buddion llywodraeth leol eraill.

Os ydy hyn yn ymddangos fel rhywbeth sydd gennych chi ddiddordeb ynddo yna byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi. Peidiwch ag oedi, ymgeisiwch nawr neu cysylltwch â Stephen am sgwrs! - 07787284748

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel

Together we can all help to keep **Flintshire** safe

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL